# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

## DYDD MERCHER 7 MAI 2014

## 12.00-1.30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC - Cadeirydd

Craig Lawton - Staff Cymorth Suzy Davies AC

**Yn bresennol:**

Rhian Williams, Cynorthwyydd Personol / Ysgrifennydd Gweinyddol, Voices From Care - Cofnodwr

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**

Mark Isherwood AC

Deborah Jones, Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care

## CROESO A CHYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD

Agorodd DM y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol.

## COFNODION

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2014 a byddent yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

## MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## ADRODDIAD BYWYD AR ÔL GOFAL COMISIYNYDD PLANT CYMRU

Cafwyd trafodaeth fer yn ymwneud ag adroddiad diweddar y Comisiynydd Plant, Bywyd ar ôl Gofal o 'Ar Goll Ar ôl Gofal' i 'Pan fydda i'n barod'; sy'n rhoi manylion am dystiolaeth o waith achos a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd mewn perthynas â'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal maeth a phreswyl.

Nodwyd fod angen cael cyngor a chefnogaeth cyn gadael gofal sy'n adlewyrchu yr hyn y byddai pobl ifanc yn ei dderbyn pe baent yn byw o fewn teulu.

## Unrhyw Fater Arall

Cododd RW y cwestiwn ar ran DJ o bresenoldeb anghyson yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ddiweddar a chynnal ail-lansiad. Dywedodd DM fod tua 100 o Grwpiau Trawsbleidiol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion ac un o ganlyniadau hyn yw bod y presenoldeb yn isel. Ychwanegodd fod ei amser ef yn brin, yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau amser yn ei rôl fel Dirprwy Lywydd ac awgrymodd efallai y dylid ystyried ymuno â'r Grŵp Hollbleidiol ar Blant.

Nododd DM nad oedd yn bryderus iawn am y presenoldeb isel gan nad oedd yn arbennig o unigryw, gyda llawer o grwpiau yn profi problem debyg. Awgrymodd gynnal digwyddiad; tebyg i'r hyn a gynhaliwyd yn y Pierhead, i ennyn brwdfrydedd pobl, yn hytrach nag ail-lansio'r grŵp.

**CAM I'W GYMRYD: RW I GYSYLLTU AG S. SHARPE I DREFNU CYFARFOD GYDA DM A DJ I DRAFOD Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR BLANT SY'N DERBYN GOFAL.**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod busnes nesaf yn cael ei gynnal yn yr hydref.

**CAM I'W GYMRYD: RW I GYSYLLTU AG S. SHARPE AR GYFER DYDDIAD CYFARFOD YR HYDREF**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben.